# SL(5)692 – Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020

## Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020 ("y Gorchymyn") yn sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru ("IGDC") ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ei gyfansoddiad a'i swyddogaethau cyffredin.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ategu'r Gorchymyn ac yn gwneud darpariaeth fanwl am aelodaeth a gweithdrefnau IGDC. Maent yn nodi materion gweithdrefnol a manylion mewn perthynas â'r aelodau amrywiol, gan gynnwys eu penodi, eu cymhwysedd, eu deiliadaeth, eu hamghymhwyso, eu hatal dros dro a'u diswyddo. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i IGDC wneud rheolau sefydlog ynghylch ei gyfarfodydd a'i drafodion.

Gyda'i gilydd, mae'r Gorchymyn a'r Rheoliadau hyn yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefydlu IGDC.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 14(2) yn darparu, mewn rhai amgylchiadau, y caiff yr aelodau nad ydynt yn swyddogion ddiswyddo aelod cyswllt (a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(b)).

Yn wahanol i reoliadau 11(2) a 13(2) - sy'n darparu'n benodol bod yn rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig *i'r aelod* - nid yw'n amlwg o eiriad rheoliad 14(2) beth y mae'n rhaid i'r aelodau nad ydynt yn swyddogion ei wneud gyda'r rhybudd ysgrifenedig er mwyn cydymffurfio â'r ddarpariaeth.

Pan gaiff ei ystyried ochr yn ochr â geiriad rheoliad 14(3), gellid casglu bod yn rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o dan reoliad 14(2) i'r aelod (gan mai dyna'r hyn sy'n ofynnol er mwyn atal aelod dros dro o dan reoliad 14(3)). Fodd bynnag, ni fynegir hyn yn glir yng ngeiriad rheoliad 14(2) a chredwn y byddai'r amwysedd yn cael ei osgoi pe bai'r geiriad "i'r aelod" wedi ei gynnwys yn y lle perthnasol.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae dechrau rheoliad 14(5) yn darllen "person y mae ei benodiad wedi ei atal dros dro o dan baragraff (1)". Mae'n ymddangos bod y cyfeiriad at baragraff (1) yn anghywir, gan fod y pŵer perthnasol i atal dros dro wedi ei gynnwys ym mharagraff (3) o reoliad 14, nid paragraff (1).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliad 2 yn y fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau hyn yn diffinio Deddf 1992, y Ddeddf a'r Gorchymyn yn gyntaf ac yna'n parhau i restru diffiniadau yn nhrefn yr wyddor. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pam na fabwysiadwyd yr un dull gweithredu yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hyn, lle y mae'r rhestr gyfan o ddiffiniadau yn nhrefn yr wyddor?

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pam mai dim ond yn Saesneg y mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu gosod?

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae troednodyn (5) ar dudalen 4 o'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) *2004 [pwyslais wedi'i ychwanegu]*, ond mae "2004" wedi ei hepgor o'r cyfeiriad.

Derbynnir nad yw'r troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben ei gynnwys yw cynorthwyo darllenydd, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyfeiriad cyfan yn cael ei ddefnyddio.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.